# SL(6)691 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel er mwyn iddynt allu talu eu treth gyngor.

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "Rheoliadau 2013"). Maent yn uwchraddio rhai ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeisydd i ostyngiad, a lefel y gostyngiad, o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Yn ogystal ag uwchraddio'r ffigurau ariannol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau technegol, cyflwyniadol a chanlyniadol i Reoliadau 2013 a ddyluniwyd i sicrhau bod Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn adlewyrchu newidiadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol cysylltiedig a systemau eraill a'u bod yn parhau i fod "*yn addas i'r diben*", fel y mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS, Ddatganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ar 9 Rhagfyr 2025.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 6(1)(c), yn is-baragraff newydd (s)(iii), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, yn y geiriau cyn is-baragraffau (aa) i (dd) mae'n nodi "*has-*", ond yr hyn a roddir gan y testun Cymraeg yw "*sy'n bodloni un o'r meini prawf a ganlyn-*". Felly, mae'r testun Cymraeg wedi defnyddio'r un ymadrodd a ddefnyddiwyd yn

gynharach ar ddechrau'r is-baragraff newydd (r)(iv) (sydd hefyd wedi'i fewnosod gan reoliad 6(1)(c)), nad yw'n digwydd yn y testun Saesneg. Mae'r un gwahaniaeth hefyd yn digwydd yn rheoliad 17(1)(c), yn y paragraff newydd (s)(iii).

Yn ogystal, yn y paragraff (s)(iii) newydd, a fewnosodwyd gan reoliad 17(1)(c), mae'r ymadrodd "*yn berson*" yn cael ei ailadrodd ar ddechrau pob un o baragraffau (aa) i (dd), yn wahanol i'r testun Saesneg. Nid yw hyn yn digwydd yn nhestun Cymraeg yr is-baragraff (s)(iii) newydd, a fewnosodwyd gan reoliad 6(1)(c).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 8(a)(i), mae'r swm a nodwyd ar gyfer diwygio yn is-baragraff (1), yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, yn anghywir. Dynodir y swm fel "*£244.**00***" ond y swm a nodir yn nhestun presennol y Tabl yn y ddarpariaeth honno yw "*£244.**40***".

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 15(a), yn y testun Cymraeg, nodir bod yr is-baragraffau newydd (3) a (4) i'w mewnosod "*ar ôl is-baragraff **(3)***". Dylai hyn ddweud "*ar ôl is-baragraff **(2)***", fel sy'n digwydd yn y testun Saesneg.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 25(a)(i), nid yw'r testun Cymraeg yn nodi'r swm cywir ar gyfer ei ddiwygio yn is-baragraff (1) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013. Mae'r testun Cymraeg yn nodi "*£244.**40***" fel y swm (fel y mae'r testun Saesneg), ond nodir swm gwahanol o "*£244.**00***" yn nhestun Cymraeg presennol y ddarpariaeth honno.

Ymddengys bod hyn yn deillio o wall hanesyddol a wnaed yn y testun Cymraeg gan reoliad 20(a)(i) o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (SI 2025/59 (W. 17)) ("Rheoliadau 2025") a fewnosododd "*£244.00*" yn anghywir yn hytrach na "*£244.40*" i'r testun Cymraeg yn is-baragraff (1) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013. Cafodd "*£244.40*" ei fewnosod yn y testun Saesneg.

Gofynnir hefyd i Lywodraeth Cymru egluro a yw'r anghysondeb hanesyddol hwn rhwng testunau Cymraeg a Saesneg y ddarpariaeth honno yn debygol o fod wedi cael effaith ymarferol ar gyfrifiadau i hawl ymgeisydd i ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ers i Reoliadau 2025 ddod i rym.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 26(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi mai'r swm newydd yw "*£87.**88***" ond y swm newydd yn y testun Cymraeg yw *"87.**99**"*. Mae hyn yn golygu bod y testunau Cymraeg a Saesneg yn mewnosod symiau gwahanol i golofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 3(1) o Atodlen 3 i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

*"Mae'r offeryn hwn wedi ei lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymreig. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol yn unig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Roedd y geiriau a ddefnyddiwyd yn y testun Cymraeg yn ddewis bwriadol o ganlyniad i'r defnydd o osodiadau cadarnhaol a negyddol yn yr is-baragraffau. Mae paragraff 2.7(4) o Drafftio Deddfau i Gymru yn cadarnhau y dylid dilyn y dull hwn.
Rydym yn cytuno na ddylid ailadrodd "person" yn y testun Cymraeg a byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu cywiro fel y nodir isod cyn eu gwneud.

**Pwyntiau Craffu Technegol 2, 3 a 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwyntiau adrodd hyn a bydd yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu cywiro fel y nodir isod cyn eu gwneud.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt cyntaf a bydd yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu cywiro fel y nodir isod cyn eu gwneud.

Mewn perthynas â'r ail bwynt, nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai'r anghysondeb hanesyddol wedi arwain at unrhyw effaith ymarferol ar gyfrifo hawlogaeth ceisydd i ostyngiad. Mae'r gwall yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 sy'n gymwys, yn ddiofyn, pan na fo awdurdod wedi gwneud cynllun ar gyfer y flwyddyn

ariannol berthnasol. Gwnaeth pob awdurdod yng Nghymru gynllun yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 yn y flwyddyn ariannol berthnasol felly ni fyddai'r gwall hwn wedi cael unrhyw effaith.

<u>Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau</u>

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026** | **The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026** |
| Yn rheoliad 8(a)(i), bydd y ffigur "£244.00" yn cael ei gywiro i ddarllen "£244.40". | Yn rheoliad 8(a)(i), bydd y ffigur "£244.00" yn cael ei gywiro i ddarllen "£244.40". |
| Yn rheoliad 15, bydd y cyfeiriad at "ar ôl is-baragraff (3)" yn cael ei gywiro i ddarllen "ar ôl is-baragraff (2)". | |
| Yn rheoliad 17(1)(c), bydd y gair "person" yn cael ei ddileu o bob un o'r paragraffau (aa) i (dd) yn y paragraff (s)(iii) newydd. | |
| Yn rheoliad 25(a)(i), bydd y paragraff (i) presennol yn cael ei ddiwygio i ddarllen:<br>"(1) yn is-baragraff (1)—<br>(aa) yn y testun Saesneg, yn lle "£244.40" rhodder "£256.00";<br>(bb) yn y testun Cymraeg, yn lle "£244.00" rhodder "£256.00";". | Yn rheoliad 25(a)(i), bydd y paragraff (i) presennol yn cael ei ddiwygio i ddarllen:<br>"(i) in sub-paragraph (1)—<br>(aa) in the English language text, for "£244.40" substitute "£256.00";<br>(bb) in the Welsh language text, for "£244.00" substitute "£256.00";". |
| Yn rheoliad 26(b), bydd y ffigur "£87.99" yn cael ei gywiro i ddarllen "£87.88". | |
| Bydd mân faterion teipograffyddol a chroesgyfeirio yn y Nodyn Esboniadol hefyd yn cael eu cywiro. | |

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**